

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	9 Mawrth 2021
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	24 Mawrth 2021

PWNC

Eitem 6: TROSGLWYDDIAD LES A RHEOLAETH O SAFLE COED HELEN, CAERNARFON

PENDERFYNIAD

Prydlesu a throsglwyddo rheolaeth Parc Coed Helen, Caernarfon i Gyngor Tref Caernarfon.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Nodwyd fod Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn cyfrannu £12,450 i Gwmni Byw'n Iach tuag at gostau rhedeg blynyddol Parc Coed Helen. Amlygwyd fod rhaglen arbedion y Cyngor wedi adnabod targed arbedion o £155,000 i gwmni Byw'n Iach. Mynegwyd drwy drosglwyddo rheolaeth Parc Coed Helen byddai'n golygu arbediad blynyddol o £12,450 o ran costau rheolaeth y safle, a fyddai'n cyfrannu tuag at y targed uchod.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Cemlyn Williams a'r Cyng. Ioan Thomas gan fod y ddau yn aelodau o Gyngor Tref Caernarfon.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	9 Mawrth 2021
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	24 Mawrth 2021

PWNC

Eitem 7:ADRODDIAD CYNNYDD PANEL STRATEGOL DIOGELU 2018-2020

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mynegwyd ei bod hanfodol bod aelodau'r Cabinet yn ymwybodol o waith y Panel ar ddiogelu ac yn fodlon bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol. Gofynnir i'r Cyfarwyddwr Statudol adrodd yn gyson a rheolaidd i aelodau ar faterion diogelu.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	9 Mawrth 2021
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	24 Mawrth 2021

PWNC

Eitem 8:YMATEB I'R YMGYNGHORIAD AR Y PAPUR GWYN: AIL-GYDBWYSO GOFAL A CYMORTH

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd yr ymateb drafft i'r Ymgynghoriad gan nodi angen am addasiadau i ymateb cwestiwn 3 er mwyn cryfhau'r ymateb.

Cefnogwyd penderfyniad y Cyngor i anghytuno gyda'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Papur Gwyn ar ei fwriad i ail-gydbwysu gofal a chymorth yng Nghymru, ac mae'n gofyn am sylwadau ar gynigion i gyflwyno deddfwriaeth newydd i wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gweithio mewn partneriaeth i wireddu'r weledigaeth a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

Nodwyd angen i ymateb i'r ymgynghoriad ac yr angen am gymeradwyaeth y Cabinet ar y sylwadau.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	9 Mawrth 2021
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	24 Mawrth 2021

PWNC

Eitem 9:FFIOEDD PRESWYL A NYRSIO 2021-22

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y ffioedd preswyl a nyrsio isod i'w cytuno gyda darparwyr annibynnol ar gyfer 2021/22

Categori	Ffi
Preswyl	£586.32
Preswyl dementia – dibyniaeth uchel	£650.79
Nyrsio	£683.90
Nyrsio dementia – dibyniaeth uchel	£722.33

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn talu ffioedd teg er mwyn ariannu gofal unigolion sy'n cael eu lleoli mewn cartrefi preswyl a nyrsio annibynnol. Nodwyd fod y cynnydd a argymhellir yn mynd a'r Cyngor yn uwch na'r lefel chwyddiant sydd wedi ei osod ar hyn o bryd yn y gyllideb ac felly yn golygu buddsoddiad ariannol ychwanegol.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	9 Mawrth 2021
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	24 Mawrth 2021

PWNC

Eitem 10:EFFAITH COVID-19 AR GYLLIDEB 2021/22 CWMNI BYW'N IACH

PENDERFYNIAD

Awdurdodwyd y Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Pennaeth Economi a Chymuned, i ddarparu llythyr o sicrwydd er mwyn ymestyn y cyfnod o sicrwydd a rhoddwyd eisoes i gwmni Byw'n Iach hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol 2021/22, yn unol â'r ddarpariaeth yn y cytundeb gyda'r cwmni.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bu i'r Cabinet yn Mai 2020 gadarnhau eu bod yn fodlon darparu cefnogaeth ariannol angenrheidiol i gwmni Byw'n Iach hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21 o ganlyniad i argyfwng firws Covid-19.

Yn anffodus, nodwyd y bydd sgil effaith yr argyfwng Covid-19 yn parhau yn 2021/22. Gyda hyn mewn golwg, mynegwyd angen i'r Cyngor ymestyn y cyfnod o gefnogi'r cwmni yn ariannol o leiaf hyd at 31 Mawrth 2022. Ychwanegwyd y bydd y gefnogaeth ariannol yn galluogi'r cwmni hyd braich i fasnachu'n gyfreithlon o 1 Ebrill 2021 tan ddiwedd y flwyddyn ariannol

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
